

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 26 TACHWEDD 2021

Yn bresennol: Cynghorydd Derbyshire(Cadeirydd)

Cynghorwyr Jacobsen

1 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 : CAIS AM GRANT TRWYDDED SAFLE - MAD DOG BREWERY TAP ROOM, STRYD Y CASTELL

Yn bresennol:

Ymgeiswyr: Tim Waters

Awdurdodau Cyfrifol: Tony Bowley – Heddlu De Cymru, y Cwnstabl Will Tapper – Heddlu De Cymru, Y Cynghorydd Norma Mackie

Cais

Cafwyd cais ar gyfer caniatáu Trwydded Safle oddi wrth Mad Dog Brewery Co Ltd o ran Mad Dog Brewery Tap Room, 17-19 Stryd y Castell a 2 Stryd Womanby, Caerdydd, CF10 1BS.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

1. O ran y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol: (i) Y gwerthiant drwy fanwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno
2. Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd): "Micro-fragdy sy'n addas i deuluoedd a bar cwrw â seddi gyda chegin fach yn cyflenwi cwrw, gwinoedd, gwirodydd a bwyd i'r cyhoedd".
3. Oni bai y nodir fel arall, gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol. Dydd Llun - Dydd Sul: 11:00 i 23:00
4. Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol: i) Gwerthu drwy fanwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle: Dydd Llun - Dydd Sul: 11:00 i 23:00

Sylwadau'r Ymgeisydd

Amlinellodd yr Ymgeisydd bwyntiau allweddol y cais. Cafodd yr Ymgeisydd a'i fab y bragdy ym mis Mai. Roedd wedi bod yn cael trafferthion trwy bandemig Covid a daeth i'r amlwg bod angen symud i safle newydd.

Roedd yr Ymgeiswyr yn ymwybodol bod y safle newydd mewn parth effaith gronol ond roeddent o'r farn eu bod fel busnes teuluol yn achos eithriadol. Bydd y bar cwrw

â seddi yn bennaf a'r bwriad yw creu amgylchedd teuluol. ydd croeso i rieni sydd â phlant yn ystod y dydd, gyda gemau'n cael eu darparu.

Bydd micro-bragdy yn y cefn gyda gwahanol fathau o gwrw ar gael mewn gwydrau 1/3, 1/2 ac 1 peint. Bydd y cais am drwydded tan 11pm. Mae Overt Security wedi cael ei gyflogi i ddarparu staff drws. Bwriad yr Ymgeiswyr yw ymuno â'r Fforwm Trwyddedai a chymryd rhan yng nghynllun rhwydwaith radio'r Heddlu. Bydd gan bob aelod o staff hyfforddiant Herio 25 yn ogystal â hyfforddiant diogelwch sy'n gysylltiedig â menywod ar eu pennau eu hunain sy'n gadael y safle yn hwyr yn y nos.

Mae'r Ymgeiswyr wedi cysylltu gyda Heddlu De Cymru ac yn diolch i'r Heddlu am eu harweiniad a chymorth ynglŷn â'r amodau sydd i'w rhoi ar waith. Mae'r Ymgeisydd hefyd wedi cyfarfod â'r Cynghorydd Mackie i drafod y cynlluniau.

Bydd y cynnig yn diogelu 4 swydd yn y bragdy ac yn creu rhwng 8 a 10 o rai newydd. Mae'r Ymgeisydd o'r farn ei bod yn bwysig cefnogi'r sector lletygarwch sydd wedi dioddef drwy'r pandemig ac effeithiau Brexit.

Tynnodd yr Ymgeisydd sylw at y ffaith fod y safle wedi dal trwydded fel trwydded safle gwerthu diodydd. Mae'r adeilad wedi cael newid defnydd ac mae ganddo drwydded A3. Mae'r Ymgeiswyr yn gobeithio cynnal gweithrediad ag enw da lle gall pobl deimlo'n gyfforddus a mwynhau eu hunain.

Holodd yr aelodau a oedd trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer casglu gwydr a pha adeg y byddai casgliadau o'r fath yn cael eu gwneud. Cynghorodd yr Ymgeisydd aelodau bod Biffa wedi bod yn cymryd rhan fel gydag adeiladau eraill yn Stryd Womanby. Byddai gwydrau'n cael eu gwagio i finiau y tu mewn i'r safle i gyfyngu ar aflonyddwch sŵn y tu allan. Byddai biniau llawn yn cael eu symud allan i Stryd Womanby i gael eu gwagio i'r cerbydau Biffa. Gwnaed cais am gasgliad cyn 9am oherwydd cyfyngiad ôl-10am ar fynediad i'r stryd.

Gofynnodd aelodau am gyngor ar ba gamau fyddai'n cael eu cymryd i liniaru ymddygiad meddw yn y safle ac o'i amgylch. Dywedodd yr Ymgeisydd fod cwmni diogelwch proffesiynol wedi ymgysylltu i reoli'r fynedfa. Mae'r cwmni mewn cysylltiad â sefydliadau eraill yn y ddinas. Yn ogystal, bydd gan yr adeiladau deledu cylch cyfyng mewnol ac allanol. Y cleientiaid targed yw cyplau a theuluoedd. Nid yw'r model busnes yn cael ei yrru gan yfed llawer. Mab yr Ymgeisydd a oedd yn gogydd yn y Fat Duck yn Bray fydd yn gyfrifol am y cynnig bwyd. Ni fydd y busnes yn cynnig alcohol rhad er mwyn denu torf yfed fawr, yn hwyr yn y nos. Bydd prisiau'n uchel er mwyn denu cleientiaid priodol.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd mewn ymateb i gwestiynau gan Tony Bowley, Heddlu De Cymru, fod y bragdy wedi ei leoli ym Mhenperlleni ger Goetre yn Sir Fynwy ar hyn o bryd. Mae'n anhyfyw yn ei leoliad presennol oherwydd diffyg ymwelwyr a chwsmeriaid yn pasio heibio. Bydd yr ardal fragu a storio yn cymryd 55-60% o'r safle newydd. Bydd y bar cwrw â seddi yn meddiannu'r gweddill. Bydd toiledau newydd i gwsmeriaid a chegin yn cael eu gosod. Capasiti i gwsmeriaid yn eistedd fydd 70. Bydd cinio yn cael eu gweini yn ogystal â byrbrydau ysgafn drwy gydol y dydd. Bydd cogyddion gwadd yn cael eu gwahodd ar benwythnosau. Bydd digwyddiadau corfforaethol a gyda thocyn yn unig hefyd. Yn ogystal â chwrrw sy'n cael eu bragu ar y safle, bydd chwrrw gwadd, gwinoedd a gwirodydd yn cael eu gweini.

Dywedodd yr Ymgeisydd wrth aelodau y bydd stolion yn cael eu gosod i'r llawr o flaen y bar er mwyn annog cwsmeriaid i eistedd yn hytrach na sefyll wrth y bar. Bydd 3 bwrdd uchel i ganiatáu hyd at 10 cwsmer i sefyll ac yfed.

Gofynnodd aelodau am gyngor ar y trefniadau ar gyfer diwrnodau digwyddiadau. Dywedodd yr Ymgeisydd wrth aelodau y byddai diogelwch ychwanegol a byddai alcohol yn cael ei weini mewn cynwysyddion plastig. Byddai'r cynnig bwyd yn cael ei addasu er mwyn osgoi defnyddio cyllyll a ffyrc.

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Dywedodd Mr Bowley fod Heddlu De Cymru wedi gwrthwynebu'r cais ar sail Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor oherwydd bod y safle yn y parth dirlawnder. Mae'r Heddlu'n cael anhawster arbennig i wneud sylwadau o ran safle newydd lle nad oedd safle trwyddedig o'r blaen, er bod trwydded gwerthu alcohol wedi bod ar y safle. Yn ogystal â bod dim cofnod mewn perthynas â'r safle, does dim un mewn perthynas â'r Ymgeisydd chwaith. Mae'r Heddlu'n cael sicrwydd gan y ffaith bod yr Ymgeisydd wedi dechrau ymgynghori, a'u bod wedi llunio rhestr o amodau i'w rhoi ar y drwydded pe bai'r Pwyllgor yn penderfynu i ganiatáu'r cais. Mae'r amodau'n cynnwys camau i'w cymryd o ran diwrnodau digwyddiadau. Mae cyfrifoldeb ar yr Ymgeisydd i argyhoeddi'r Pwyllgor na fydd y cais yn cael effaith negyddol ar Amcan Trwyddedu Atal Trosedd ac Anhrefn, a bod y cais yn dod â rhywbeth diwylliannol wahanol i ganol y ddinas.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn hapus i gydymffurfio â'r amodau gafodd eu nodi gan yr Heddlu.

Dywedodd y Cynghorydd Mackie fod pryderon wedi bod am sefydlu safle yfed yn y parth effaith gronnol. Roedd trafodaethau wedi datgelu bod yr Ymgeisydd wedi cymryd amser ac ymdrech i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion. Deallwyd bod Gwesty'r Angel yn gefnogol i'r cais. Gan ystyried yr amodau a nodwyd gan yr Heddlu dywedodd y Cynghorydd Mackie nad oedd ganddi unrhyw bryderon heblaw am y ffaith bod y safle yn y parth effaith gronnus.

I grynhoi

Dywedodd Mr Bowley ei bod wedi bod yn bwysig cael cyfle i holi'r Ymgeisydd er mwyn cael mwy o wybodaeth am y cais. Roedd yr Heddlu'n dawel eu meddwl am gapasiti araf y safle, prisiau uchel disgwylidig ac amser cau 11pm.

Dywedodd yr Ymgeisydd mai eu gobaith oedd creu sefydliad oedd yn arloesol ac yn eithriadol ac yn cynnal enw da iawn. Byddai camau ar unwaith yn cael eu cymryd i gywiro unrhyw ymddygiad problemus.

PENDERFYNWYD:

Rydym wedi clywed gan yr ymgeisydd a gwrandawodd ar yr holl dystiolaeth a chyflwyniadau ac ystyriodd y deunydd ysgrifenedig. Rydym hefyd wedi ystyried y Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a'r Datganiad Polisi Trwyddedu.

Clywsom hefyd y sylwadau a wnaed gan Heddlu De Cymru a'r aelod ward leol, ac rydym wedi ystyried yr holl sylwadau ysgrifenedig a wnaed.

Mae'r safle mewn ardal a gwmpesir gan Bolisi Effaith Gronnol sy'n creu'r rhagdybiaeth wrthbrofadwy y bydd unrhyw geisiadau newydd neu wedi'u hamrywio am Drwyddedau Safle yn cael eu gwrthod neu eu cyfyngu oni bai y gall yr ymgeisydd ddangos yn llwyddiannus na fydd rhoi'r cais yn ychwanegu at yr effaith gronnol yn yr ardal. Rydym wedi cytuno y byddai'r Polisi Effaith Gronnol yn berthnasol i'r cais hwn.

Nodwn cyn y cyfarfod i chi gyfarfod â'r Aelod ward lleol a rheolwr gwesty'r Angel gerllaw, i dawelu unrhyw bryderon am weithrediad arfaethedig y safle.

O ystyried eich cyflwyniad heddiw, y llenyddiaeth a gyflwynwyd i ni a'ch Amserlen Weithredu, teimlwn eich bod wedi dangos yn llwyddiannus na fyddai'r cais hwn yn ychwanegu at yr effaith gronnol negyddol yn yr ardal, ac ni fydd y cais hwn yn effeithio'n negyddol ar yr amcanion trwyddedu.

Rydym felly'n penderfynu i ganiatáu'r cais, yn amodol ar ychwanegu'r amodau a gynigiwyd gan Heddlu De Cymru yn Atodiad C yr adroddiad.

3 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - CURRY HUT, SALISBURY ROAD

Yn bresennol:

Ymgeiswyr: Jeyaratnam Pathmasri, Pakshuna Pathmasri (merch)

Awdurdodau Cyfrifol: Y Cynghorydd Norma Mackie – Cynghorydd Ward

Cais

Mae cais wedi'i dderbyn am roi Trwydded Eiddo gan Family Choice Private Ltd o ran Curry Hut Caerdydd, 96 Salisbury Road, Cathays, Caerdydd, CF24 4AE.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

1. O ran y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol: (i) Y gwerthiant drwy fanwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno (ii) Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos (dan do).
2. Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd): "Ar hyn o bryd mae gan y safle drwydded gwerthu alcohol eisoes. Dros y deng mlynedd diwethaf, rwyf wedi rhedeg y safle fel siop fanwerthu a hefyd busnes tecawê. Rydym wedi troi'r lle yn fwyty a tecawê ar gyfer bwyd Srilancaidd a choginio Indiaidd. Gan y byddaf yn darparu'r opsiwn bwyta y tu mewn hoffwn hefyd allu darparu alcohol i'w yfed ar y safle. Hefyd hoffwn ymestyn yr amser y gallaf werthu alcohol i 24 awr. Hefyd hoffwn ymestyn yr amser y gallwn ni werthu bwyd poeth i 24 awr".
3. Oni nodir yn wahanol, gall y lleoliad fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau ychwanegol i'r amseriadau ansafonol: 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.
4. Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol: (i) Y gwerthiant drwy fanwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno: 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos (ii) Darparu lluniaeth hwyr yn y nos (dan do): Dydd Llun i Ddydd Sul 23:00 i 05:00

Sylwadau'r Ymgeisydd

Amlinellodd yr Ymgeisydd bwyntiau allweddol y cais. Mae gan yr Ymgeisydd 15 mlynedd o brofiad yn gweithredu siopau gwerthu alcohol a tecawê. Mae'r cais am fwyty i wasanaethu cymuned De India a Sri Lanca. Mae llawer o aelodau'r gymuned yn gweithio mewn ysbytai ar shifftiau ac yn bwyta'n hwyr gyda'r nos. Mae'r Ymgeisydd yn ysgrifennydd sefydliad cymunedol Tamil ac yn ymwybodol o'r galw o fewn y gymuned am fwyty. Bydd lle i 25 o bobl eistedd yn y bwyty yn ogystal â chownter tecawê a minibar. Mae gan yr Ymgeisydd, gwraig a ffrind yr ymgeisydd drwyddedau GSD. Ar ôl 11pm bydd person wrth y drws.

Dywedodd merch yr Ymgeisydd bod y cais gwreiddiol wedi bod am agor 24 awr ond ar ôl trafodaethau gyda Heddlu De Cymru bod hyn wedi newid. Y rheswm am yr agoriad estynedig oedd bod llawer o aelodau'r gymuned wedi mynegi'r farn nad oes unman iddynt fwyta bwyd traddodiadol De India a Sri Lanca, yn enwedig o gwmpas gwyliau. Ni fyddai cwsmeriaid ciniawa yn cael eu derbyn ar ôl 11.30pm. Byddai angen i gwsmeriaid bwyta gadw lle. Fyddai dim cerddoriaeth fyw. Byddai archebion partiön o natur ffurfiol.

Mae'r Ymgeisydd wedi gofyn am ymestyn oriau bwyd poeth er budd cwsmeriaid gan y GIG. Nod y drwydded estynedig am werthu alcohol yw caniatáu i gwsmeriaid tecawê brynu diodydd gyda'u prydau bwyd. Mae'r Ymgeisydd wedi cytuno i'r amseroedd sydd wedi'u newid a awgrymwyd gan Heddlu De Cymru.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar ba bersonau oedd â thrwyddedau GSD. Dywedodd merch yr Ymgeisydd mai ei thad, ei mam a'i hewythr sydd â thrwyddedau. Mae'r Ymgeisydd yn berchen ar siopau gwerthu alcohol yn Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd.

Gofynnodd aelodau am gyngor ar y mesurau diogelwch fyddai ar waith i atal cwsmeriaid swnllyd rhag dod i mewn a gadael yn hwyr yn y nos. Dywedodd yr Ymgeisydd y byddai aelod o staff gyda GSD ar y drws wedi 11pm. Dim ond bwyd tecawê fyddai'n cael ei weini ac ni fyddai cwsmeriaid eistedd yn gallu mynd i mewn ar ôl 11pm. Ni fyddai modd i gwsmeriaid brynu alcohol heb fwyd. Byddai teledu cylch cyfyng ar waith.

Holodd yr aelodau ynglŷn â threfniadau ar gyfer gwagio biniau, casglu gwydr a danfoniadau poteli. Dywedodd merch yr Ymgeisydd bod y mater wedi ei drafod gyda'r Heddlu. Ni fyddai unrhyw weithgaredd gyda biniau na danfoniadau yn digwydd rhwng 9pm a 9am. Oherwydd diffyg lle yn y safle byddai biniau'n cael eu cludo i safle Texaco yn Heol y Gogledd Road i'w casglu.

Cadarnhaodd yr Ymgeiswyr y bydden nhw'n cadw'r drwydded bresennol nes canlyniad y cais. Pe bai'r cais yn llwyddiannus fe fydden nhw'n ildio'r drwydded bresennol.

Dywedodd yr Ymgeiswyr y byddai gwerthiant tecawê yn cael eu cyfyngu i uchafswm o 4 peint o gwrw i bob cwsmer gyda bwyd. Byddai cwsmeriaid meddw yn cael eu gwrthod alcohol. Nid oedd gan y safle le i storio llawer iawn o alcohol.

Gofynnodd aelodau am eglurhad a fyddai cwsmeriaid sydd wedi archebu lle ymlaen llaw yn cael mynediad ar ôl 11.30pm. Dywedodd yr Ymgeiswyr na fydden nhw'n

gwneud hynny. Byddai archebion partïon yn cael eu gwrthod pe na fydden nhw'n cael eu hystyried yn briodol. Ar ôl 11pm, byddai cwsmeriaid ciniawa ond yn cael eu gweini diodydd mewn poteli a chaniau cwsmeriaid tecawê.

Gofynnodd y Cynghorydd Mackie am eglurhad ar yr amser y byddai'r drwydded tecawê yn ymestyn iddo. Dywedodd yr Ymgeiswyr eu bod wedi gofyn iddo ymestyn i 3am. Roedd yr Heddlu wedi awgrymu 2.30am ar benwythnosau a 12.30am ar ddyddiau'r wythnos, ac roedd yr Ymgeiswyr yn hapus â nhw. Roedd disgwyl i gwsmeriaid bwyta sy'n dod i mewn am 11.30pm aros am hyd at 2 awr.

Cwestiynodd yr aelodau a fyddai cwsmeriaid sy'n gadael am 2.30am neu 3am yn tarfu ar drigolion. Dywedodd yr Ymgeiswyr nad oedd disgwyl i gwsmeriaid aros mor hir â hynny ar y rhan fwyaf o nosweithiau, ond dim ond cwsmeriaid oedd yn archebu ar gyfer achlysuron arbennig.

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Dywedodd y Cynghorydd Mackie fod gwrthwynebiad cynghorwyr y ward yn seiliedig ar yr oriau hwyr y gofynnwyd amdanynt am werthiant tecawê a'r lleoliad gyda'i phoblogaeth fawr o fyfyrwyr, y gellid disgwyl iddynt geisio prynu bwyd a diod tan 3am. Gallai cau'r bwyty i gwsmeriaid bwyd ar ôl 11pm tra bod gwerthiant tecawê yn parhau tan 3am arwain at sefyllfaoedd anodd, yn enwedig pe bai rhai yn cael eu gwrthod. Mae trigolion wedi cwyno am y posibilrwydd o sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae nifer fawr o bobl yn byw mewn tai a fflatiau gerllaw y mae'n debygol tarfu arnynt. Cwestiynodd y Cynghorydd Mackie a fyddai gweithwyr y GIG am brynu bwyd a diod yn hwyr yn y nos neu yn oriau mân y bore.

Gofynnodd aelodau am eglurhad pam mae cynghorwyr y ward yn parhau i wrthwynebu pan oedd cyrff cyfrifol eraill wedi tynnu eu gwrthwynebiadau yn ôl. Dywedodd y Cynghorydd Mackie bod cynghorwyr y ward yn pryderu nad oedd yr Ymgeiswyr wedi ystyried ymddygiad myfyrwyr sy'n dychwelyd o ganol y ddinas yn hwyr yn y nos a fyddai'n debygol o ofyn am fwyd a diod. Roedden nhw'n poeni y gallai amharu mwy ar drigolion lleol yn ogystal â'r hyn sydd eisoes yn digwydd.

Dywedodd yr Ymgeiswyr eu bod wedi gweithredu siop alcohol ar y safle am 15 mlynedd a bwyty ar stryd arall. Mae merch yr Ymgeisydd yn byw yn y fflat uwchben y safle. Dywedodd yr Ymgeiswyr eu bod yn deall y sefyllfa y mae trigolion Salisbury Road ynddi a'u bod yn hapus i dderbyn gwelliannau i'r amserau cyn belled â'u bod yn gallu agor yn hwyr ar gyfer archebion achlysuron.

Holodd y Cynghorydd Mackie a allai'r Ymgeiswyr wneud cais am drwydded HDDD pan oedden nhw'n disgwyl archeb achlysur. Dywedodd yr Ymgeiswyr y byddai'n anodd rhagweld pryd y gallai archeb o'r fath ddigwydd ac y byddai'n ddefnyddiol cael y gallu i gymryd archebion o'r fath ar o leiaf 1 neu 2 ddiwrnod yr wythnos.

I grynhoi

Ategodd y Cynghorydd Mackie nad oedd y gwrthwynebiad i'r bwyty ond i'r oriau hwyr y gofynnwyd amdanynt am y tecawê yr ystyriwyd y gallai achosi aflonyddwch i drigolion lleol. Pe bai'r Ymgeiswyr yn gallu cyfaddawdu ar yr oriau byddai'n mynd rhywfaint o'r ffordd i fodloni'r gwrthwynebiadau.

Dyweddodd yr Ymgeiswyr eu bod yn hapus i ystyried awgrymiadau ynglŷn â'r oriau a'u bod yn deall pryderon trigolion.

PENDERFYNWYD:

Rydym wedi clywed gan yr ymgeisydd a gwrandawodd ar yr holl dystiolaeth a chyflwyniadau ac ystyriodd y deunydd ysgrifenedig. Rydym hefyd wedi ystyried y Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a'r Datganiad Polisi Trwyddedu.

Rydym hefyd wedi ystyried y sylwadau a wnaed heddiw gan yr aelod ward lleol ac rydym wedi ystyried yr holl sylwadau ysgrifenedig a wnaed i ni.

Nodwn, cyn y cyfarfod, eich bod wedi derbyn amodau arfaethedig Heddlu De Cymru yn Atodiad C a Rheoli Llygredd Iechyd yr Amgylchedd yn Atodiad D o'r adroddiad.

Rydym yn nodi bod yr ardal yn gymysgedd o adeiladau preswyl a masnachol ac mae nifer o adeiladau trwyddedig gerllaw gydag amseriadau tebyg, ac nid yw'r safle hwn wedi'i leoli mewn ardal a gwmpesir gan bolisi effaith gronol.

Ar ôl ystyried y cyflwyniadau'n ofalus heddiw a'r deunydd ysgrifenedig, rydym yn teimlo nad oes gan gynigion o fewn y cais y potensial i danseilio'r amcanion trwyddedu.

Rydym felly'n penderfynu caniatáu'r cais, yn amodol ar ychwanegu'r amodau arfaethedig yn Atodiad C a D yr adroddiad a'r Drwydded Safle presennol (CCCP00345) yn cael ei ildio, ar ôl diwedd y cyfnod apelio.

4 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified